LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem:** 10

**Teitl:** Diweddariad ein pobl

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Er gwybodaeth |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Bod y Bwrdd yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn. |
| **Risg / Risk** | **CR1 – Pobl a sgiliau** – sicrhau ein bod yn cadw ac yn cael y cymysgedd sgiliau mewn meysydd allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau.<br>Mae hefyd yn cyd-fynd ag Archwaeth Risg RA8 – awydd brwd i helpu ein pobl i wneud pethau'n wahanol ac yn well. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r adroddiad hwn. Mae pob swydd wag a swydd sy'n cael ei llenwi wedi'i chyllidebu. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme Objective** | Amcan/maes blaenoriaeth 5 - tyfu a gwella fel sefydliad.<br><br>Fel sy'n gysylltiedig â Strategaeth Llais ar gyfer 2024-2027 – sy'n tynnu sylw at yr uchelgais i esblygu i fod yn sefydliad aeddfed, sy'n cael ei redeg yn dda, sy'n ddibynadwy ac yn uchelgeisiol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn nodweddion ym mhopeth a wnawn gyda'n pobl yn Llais. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu hadlewyrchu fel sy'n briodol o fewn y materion yr adroddir arnynt. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol**: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ |

| | **Allanol**: enw da ein sefydliad ☒ |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Alyson Thomas, Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Mae'r Bwrdd wedi derbyn adroddiad ar faterion y gweithlu a phobl ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. Mae cynnwys y diweddariad hwn wedi'i ategu gan y Dangosfwrdd Chwarterol Pobl sy'n cyd-fynd ag ef. |
| **Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting** | Cyfarwyddwr Pobl, Llesiant, a Datblygu Sefydliadol. |
| **Dyddiad / Date** | **07 Mai 2026** |

**Cefndir / Background**

Mae'r adroddiad hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gynnydd materion allweddol yn ymwneud â'r gweithlu a phobl. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio, dysgu a datblygu, iechyd a diogelwch a gweithgareddau datblygu sefydliadol.

**Manylion / Detail**

**Tîm pobl**

Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi cael cymeradwyaeth Weithredol i recriwtio Partner Dysgu a Datblygu Sefydliadol ar gontract tymor penodol o 12 mis. Bydd y rôl hon yn arwain ar nifer o flaenoriaethau datblygu sefydliadol, sy'n ganolog i flaenoriaeth 5 y cynllun blynyddol gan gynnwys adolygiad recriwtio o'r dechrau i'r diwedd, adolygu a chryfhau ein trefniadau sefydlu sefydliadol a dadansoddiad o'n hanghenion dysgu sefydliadol i gefnogi cyflawni ein strategaeth a'n cynlluniau.

**Recriwtio**

Ers yr adroddiad diwethaf i'r Bwrdd, rydym wedi penodi 2 rôl Pennaeth Rhanbarthol Eiriolaeth ac Ymgysylltu allweddol yn rhanbarthau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a Gorllewin Cymru. Mae'r ddau benodedig bellach wedi dechrau yn eu swyddi ar sail barhaol.

Mae'r 5 rôl newydd a gytunwyd yn flaenorol gan y Bwrdd yn cael eu datblygu. Mae 1 wedi cael ei recriwtio i (Eiriolwr Cwynion – Gorllewin Cymru), mae 1 yn aros am werthusiad swydd ar hyn o bryd (Swyddog Cyllid – Tîm Cenedlaethol), ac mae'r 3 disgrifiad rôl newydd sy'n weddill yn cael eu datblygu.

Mae rôl wedi'i hailfframio ar gyfer Swyddog Cymorth Gweinyddol sy'n cwmpasu eiriolaeth ac ymgysylltu â chwynion yn cael ei gwerthuso ar hyn o bryd yn dilyn treial llwyddiannus yn rhanbarth Gwent.

Mae gweithgaredd recriwtio arall isod:

| **Rôl (Rhanbarth/Tîm)** | **Statws** |
|---|---|
| Rheolwr Gweithrediadau Rhanbarthol (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe) | Cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer 15 Mai 2026 |

**Diweddariad dysgu a datblygu**

Rydym yn gweithio gydag arweinwyr ar draws y sefydliad i ddeall anghenion dysgu a datblygu. Rydym hefyd yn parhau i dderbyn ac ystyried ceisiadau datblygu dysgu gan unigolion sydd am ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Mae gweithgor wedi'i sefydlu i lunio rhaglen ddatblygu bwrpasol ar gyfer y Penaethiaid Rhanbarthol Eiriolaeth Cwynion ac Ymgysylltu newydd.

Mae cyfleoedd ar gyfer datblygu arweinyddiaeth, a ddarperir gan Academi Wales, wedi'u rhannu gyda phob rheolwr llinell. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau rhithwir ac wyneb yn wyneb gwahanol, wedi'u hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac wedi'u teilwra i'r rhai sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus.

Ar ôl ei recriwtio, bydd y Partner Dysgu a Datblygu Sefydliadol newydd yn arwain ar ddatblygu fframwaith gwybodaeth a sgiliau sefydliadol ac ymarfer dadansoddi anghenion dysgu i nodi ac ymateb i'n blaenoriaethau dysgu a datblygu ar draws ein holl rolau.

**Adolygiad Iechyd a Diogelwch**

Mae cynnydd yn parhau gydag adolygiad allanol cynhwysfawr o'n trefniadau iechyd a diogelwch.

Mae archwiliadau safle wedi'u cwblhau yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ac maent ar y gweill ar hyn o bryd yn rhanbarthau Gwent a Chaerdydd a Bro Morgannwg.

**Dangosfwrdd chwarterol**

Mae'r dangosfwrdd chwarterol ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2026 ar gael i'w weld yn Atodiad 1.

**Argymhellion/ Recommendations**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad.